
# Rhoi llyfr yn anrheg y Nadolig hwn

## Aled Davies













Gyda'r Nadolig yn agosau, fe fydd yna hen grwydro siopau a'r we am anrhegion i'w rhoi i deulu a ffrindiau. Yn bersonol mae'n gas gen i fynd ar gyfyl siopau rhwng rwan a'r Nadolig gan bod y pwyslais i gyd ar anrhegion Nadolig di-bwrpas, lle gwelwn becynnu siocledu, sanau a sebon mewn bocsus ffansi, ond heb fawr o sylwedd tu fewn. Heb os, mae llawer o bres yn cael ei wastraffu ar anrhegion diangenrhaid, a llawer o'r rheini yn gorffen i fyny yn y siop elusen yn y flwyddyn newydd.

Bydd eglwysi ac Ysgolion Sul hefyd yn trefnu eu partïon gyda Sion Corn, a fydd yn dod gyda'i anrheg blynyddol, ac eto yn aml, bocsus siocledi fydd yn cael eu cyflwyno ar ei ran. Tybed a ddylem fel Cristnogion ac eglwysi roi ychydig mwy o feddwl i mewn i'r hyn rydym yn ei rannu dros y tymor yma? Fel cyhoeddwr llyfrau Cristnogol, yn naturiol rwyf am weld mwy yn rhannu llyfrau sy'n atgoffa plant a phobl o bob oed o'r hyn yw'r Nadolig, ac o bwy yw Iesu Grist mewn gwirionedd. Mae gennym ni gyd y cyfle i rannu'r Newyddion Da dros dymor y Nadolig.

Eleni eto mae toreth o lyfrau newydd wedi eu cyhoeddi, a rheini yn gwbl addas i'w cyflwyno yn anrhegion. Dyma ddetholiad cryno o rai llyfrau newydd.

### I OEDOLION

Ymhlith y detholiad o lyfrau newydd i oedolion mae cyfrol rhodd hyfryd **Codi'r Llen**, sy'n cynnwys 40 myfyrdod a llun o wragedd allweddol yn yr Hen Destament, a cyfrol **O Ddydd i Ddydd** sy'n cynnwys 365 myfyrdod Beiblaidd wedi eu dewis o gyfrolau'r gorffennol. Mae cyfrol o gerddi Cristnogol gan John Emyr, sefr **Ffenestri Gobaith** a chyfrol fyfyrdodol yn olrhain hanes Moses, sef **Dehongli Bywyd Moses**. Dau gofiant Cristnogol newydd yw **Liliau Tân** yn adrodd hanes Dr Rhiannon Lloyd a **Rhedeg yr Yrfa** yn olrhain taith D. Ben Rees fel gweinidog am 60 mlynedd.

### I BLANT

Mae nifer o deitlau cyffrous ac arloesol newydd ar gael i blant eleni, gan gynnwys:

**Llyfr Llechen Beiblaidd** - y llyfr cyntaf yn y Gymraeg i gynnwys sgrin electronig LCD er mwyn tynnu lluniau gyda stylus.

**Llyfr Sŵn Anifeiliaid y Beibl** - cyfrol hardd sy'n cynnwys 40 botwm - pob un ohonynt yn gwneud sŵn anifail gwahanol.

**Llyfr Piano'r Nadolig** - cyfrol liwgar sy'n cynnwys 6 carol gyda phiano electronig wedi ei osod ar glawr y llyfr.

**Llyfr Sticeri Beiblaidd** - llyfr anferthol maint A3 sy'n cynnwys dros 200 o sticeri a straeon Beiblaidd.

**Edrychwch, Ganwyd Iesu** - llyfr lliwgar yn adrodd hanes geni Iesu.

Maent i gyd ar gael o'ch siop lyfrau Gymraeg neu Gristnogol lleol, a byddai'n dda gweld mwy yn cefnogi ein siopau llyfrau lleol yn hytrach na phrynu ar y we.







